

Hanes Ruth



ARWEINYDD

Croeso i bawb i'r oedfa heddiw. Mae'n dda eich gweld chi i gyd. Roedd y comediwr Les Dawson yn boblogaidd iawn yn ei ddydd 'ndoedd? Prif destun ei storïau doniol yn aml iawn oedd ei fam-yng-nghyfraith!

Heddiw rydym yn mynd i edrych ar fam-yng-nghyfraith a merch-yng-nghyfraith arbennig yn y Beibl, sef Naomi a'i merch-yng-nghyfraith Ruth.

Gadewch i ni gynnau cannyll fel arwydd ein bod yn dechrau ein hoedfa.

[Cynnau cannyll!]

GWEDDI

Deuwn o dy flaen yn awr, o Dduw, gan wybod dy fod yn ein derbyn ni ac yn ein caru fel yr ydym. Gweddïwn y bydd i ni gyd gael bendith o'r oedfa yma heddiw. Yn enw Iesu, Amen

EMYN 791 'Tydi a wnaeth y wyrth'

ARWEINYDD

Dyma gefndir y stori – bydd rhai ohonoch yn gyfarwydd â hi'n barod. Mae tad a mam, sef Elimelech a Naomi, a'u dau fab, sef Mahlon a Chillion, yn gadael Bethlehem am Moab oherwydd y newyn oedd yno. Ar ôl tyfu'n oedolion, mae'r ddau fab yn priodi merched lleol o Moab, sef Ruth ac Orpa. Ymhen rhai blynyddoedd mae'r tad yn marw, ac felly hefyd y meibion, rai blynyddoedd wedyn. Mae Naomi'n penderfynu dychwelyd i Fethlehem. Mae Orpa'n penderfynu aros yn Moab, ond mae Ruth yn mynnu gadael ei phobol a bro ei mebyd i fynd gyda Naomi i Fethlehem, er mwyn edrych ar ei hôl.

DARLLENIAD Ruth 1:7–18

Dyma ddarlleniad o Lyfr Ruth, lle mae Naomi a'i merched-yng-nghyfraith yn gadael Moab am Fethlehem.



EMYN 852 'Dros Gymru'n gwlad'

ARWEINYDD

Cyn edrych ar y stori, gadewch i ni wrando unwaith eto ar eiriau enwog Ruth i'w mam-yng-nghyfraith pan mae'n gwrthod ei gadael:

'Ble bynnag yr ei di, fe af finnau; ac ym mhle bynnag y byddi di'n aros, fe arhosaf finnau; dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fy Nuw innau. Lle y byddi di farw, y byddaf finnau farw ac yno y'm cleddir.'

MYFYRDOD

Dyma dri phwynt am stori Ruth.

1. Mae bywyd yn anodd

Mae bywyd yn anodd i Ruth, ac yn anodd i ni i gyd. Nid ffordd syth fel yr M4 yw bywyd, ond ffordd gul, droellog, gyda throeon cas a chreigiau ar bob llaw.

Fel yna mae bywyd – cyfres o droeon trwstan a siomedigaethau. Meddylwch am Ruth – ei gŵr yn marw, ei brawd-yng-nghyfraith a'i thad-yng-nghyfraith yn marw,

mae hi'n gadael ei chartref a'i theulu a'i ffrindiau, yn byw mewn gwlad estron, ac yn mynd mas i weithio'n galed drwy'r dydd i gynnal ei mam-yng-nghyfraith.

Mae bywyd yn anodd i ni i gyd. Ond mae'r stori hon yn ein dysgu ni i ymddiried yn Nuw – hyd yn oed pan fydd pethau ar eu mwyaf tywyll.

2. Mae'n bosibl byw bywyd da, beth bynnag yw'r amgylchiadau o'n cwmpas

Yng nghyfnod Ruth roedd yna anhrefn ym mhobman – *chaos* llwyr. Doedd dim trefn, pawb yn hunanol, a phawb yn gwneud beth oedd yn iawn yn ei olwg ei hun.

Ac yng nghanol hyn i gyd, roedd Ruth yn esiampl o gariad a charedigrwydd. Fe roddodd hi ei bywyd i helpu ei mam-yng-nghyfraith, gan weithredu er ei lles hi bob amser. Ac fe wnaeth Duw fendithio'i bywyd hi.

Beth bynnag sy'n digwydd o'n cwmpas – ac mae yna lawer yn digwydd y dyddiau hyn – gallwn ni ddal i weithio i fyw bywyd da.

3. Y neges olaf a'r bwysicaf yw bod Duw yn Dduw i bawb ac yn caru pawb yr un fath

Mae cariad Duw yn ymestyn at bob un o bob gwlad, cenedl, hil a chrefydd. Nid un o bobol Israel oedd Ruth, ond yn hytrach estrones o wlad Moab – cenedl roedd yr Iddewon yn edrych i lawr arnynt ac yn gwneud hwyl am eu pennau.

Ond mae Duw yn defnyddio Ruth i chwarae rhan bwysig yn ei ddrama fawr ef. Oherwydd fe ddaeth Ruth yn fam i Obed, sef tad-cu y Brenin Dafydd. Ac roedd Iesu Grist ei hun o linach Dafydd. Roedd Iesu ei hun, felly, yn dod o linach Ruth – yr estrones o wlad Moab.

PWYNTIAU ERAILL POSIBL Y GELLID YMHELAETHU ARNYNT

Mudwyr economaidd oedd Naomi a'r teulu. Ac mae pobol fel hyn yn cael eu trin yn wael iawn heddiw gan ein cymdeithas ni.

Pwysigrwydd cael amynedd ym mhethau Duw. Bu raid i Ruth aros ac aros nes i bethau weithio mas yn iawn iddi hi.

Does neb yn ddibwys, a dim un math o waith yn ddibwys yng ngolwg Duw.

GWEDDI

Diolch i ti am y cariad a'r gofal sydd yn ein byd. Diolch yn arbennig heddiw am y rhai sy'n edrych ar ôl yr henoed yn ein cymdeithas. Gad i ni osod parch ar y rhai hynaf yn ein cymdeithas gan barchu'r profiad, yr wybodaeth a'r doethineb sydd ganddynt.

Boed i stori Ruth fod yn esiampl i ni o gariad anhunanol. Yn esiampl o sut i wasanaethu eraill gan osod eraill yn gyntaf.

A chofiwn eiriau Iesu nad yw'r hyn a wnawn dros ein hunain yn cyfrif yn dy olwg di. Ond fod popeth a wnawn dros eraill, ein bod yn ei wneud drosot Ti, y tragwyddol Dduw.

Arwain ni i gofio hyn bob amser, a hynny yn enw Iesu, yr hwn a'n dysgodd wrth weddio i weddio fel hyn,
Ein Tad . . .

EMYN 739 'O fy Iesu bendigedig'

Y FENDITH

A bydded i gariad Duw, yr hwn sydd tu hwnt i bob deall, fod gyda ni i gyd, yr awr hon ac yn oes oesoedd. Amen.

[Diffodd y gannwyll]

(G.LI.)